NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Inotersen ar gyfer trin amyloidosis trawsthyretin etifeddol

22 Mai 2019

Mae Inotersen (Tegsedi) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer polyniwropathi cam 1 a cham 2 mewn oedolion ag amyloidosis trawsthyretin etifeddol.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- UK ATTR Amyloidosis Patients Association, carlos.heraspalou2@gmail.com
- Cardiomyopathy UK, 0800 018 1024

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3413-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.